# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 26 Ebrill 2005]

**Dydd Mawrth 3 Mai a dydd Mercher 4 Mai 2005**

**Dydd Mawrth 10 Mai a dydd Mercher 11 Mai 2005**

**Dydd Mawrth 17 Mai a dydd Mercher 18 Mai 2005**

## Dydd Mawrth 3 Mai 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (20 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Gludiant i'r Ysgol (60 munud)**

  Pwrpas y ddadl yw ystyried materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar gludiant i'r ysgol. Mae hwn yn canolbwyntio ar y cludiant a ddarperir i'r ysgol ac o'r ysgol ar y bws ac yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau bws. Prif nod yr argymhellion hyn yw gwella diogelwch ond eir i'r afael hefyd â nifer o faterion eraill, gan gynnwys caffael, diogelwch ac ansawdd y ddarpariaeth.

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (45 munud)**

  Mae Rheol Sefydlog 6.6 yn ei gwneud yn ofynnol neilltuo amser yn ystod pob

cyfnod deuddeg mis i ddadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

## Dydd Mercher 4 Mai 2005

- **Motion to set up an additional committee under Standing Order 8.1 to consider the Commencement of Section 54 and Section 54A of the Public Audit (Wales) Act 2004 (1 funud)**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

- **Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2005**

    Tir Mynydd yw mesur cymorth Ardal Lai Ffafriol o dan Reoliadau cyfredol y Cyngor Ewropeaidd a Datblygiad Gwledig y Comisiwn, a gymeradwywyd yn ffurfiol fel rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Tir sydd dan anfantais neu sydd dan anfantais ddifrifol yw Ardal Lai Ffafriol fel y'i dangosir yng Nghyfrolau 1 a 2 o'r gyfrol o fapiau ardaloedd ffermio llai ffafriol yng Nghymru, dyddiedig 20 Mai 1991. Mae lwfansau digolledu yn cael eu talu ar gyfer porthiant ardaloedd llai ffafriol i ffermwyr sydd: yn ffermio o leiaf 6 hectar, yn addo parhau i ffermio am o leiaf bum mlynedd o'r taliad cyntaf o lwfans digolledu, a rhoi arferion ffermio da arferol ar waith sy'n gydnaws â'r angen i ddiogelu'r amgylchedd a chynnal cefn gwlad, yn benodol drwy ffermio cynaliadwy. Cynllun Tir Mynydd yw'r sail dros dalu'r lwfansau hyn i ffermwyr Cymru. Yn sgil diwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (gan gynnwys dod â cheisiadau da byw i ben o 2005) a mesurau newydd i ffermwyr organig, sy'n effeithio ar Gynllun Tir Mynydd, bu'n rhaid diwygio'r meini prawf cymhwyso ar gyfer cynllun 2006. Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i ddaliadau sydd wedi'u lleoli'n gyfangwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

- **Motion to approve under Standing Order 25 section 3 The Home-Grown Cereals Authority (Rate of Levy) Order 2005 (1 funud)**

This joint Order fixes the rate of levy to be charged by the Home-Grown Cereals Authority (HGCA) for the year commencing 1 July 2005. The revenue generated allows the HGCA to undertake research and development activities for the industry as well as marketing and promotion. The HGCA is proposing that the levy rates should remain unchanged for 2005/06.

- **Motion to approve The Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 under Standing Order 26 (15 munud)**

As part of the U.K. Governments' commitment to reduce death, injury and damage caused by fire, the Office of the Deputy Prime Minister (ODPM) is changing fire safety law. The changes are designed to make the law easier to understand and to comply with. These changes will apply across England and Wales. The new law will affect non-domestic premises. The Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 (RRFSO) has been considered by Parliamentary Committee prior to the announcement of the General Election. Once the new Parliament is in session the Order will go to a vote in both Houses and subject to the outcome of the vote will be signed by the First Secretary of State (i.e. the Deputy Prime Minister). Subject to this process the RRFSO is expected to come into force during April 2006**.**The Order is a reform of all the current fire safety law, which is contained in over 100 separate pieces of legislation. The main emphasis of the changes will be to move towards fire prevention. Fire certificates will be abolished and will cease to have legal status. Under the RRFSO the 'responsible person' for each premises will be required to carry out an assessment of the risks (risk assessment) of fire and take steps to reduce or remove the risk. Risk assessments will have to take into consideration the effect a fire may have on anyone in or around the premises. This will need to be kept under regular review. The new RRFSO will apply to the voluntary sector and self-employed people with premises separate from their homes. A series of guides will be produced. These will give detailed information on risk assessments and other issues.

- **Motion to approve The Pharmaceutical Services (Advanced and Enhanced Services)(Wales) Directions 2005 under Standing Order 29 (15 munud)**

These Directions detail the processes for Advanced and Enhanced Services and allow Local Health Boards to give effect to the principles outlined in the National Health Service (Pharmaceutical Services) (Amendment) (Wales) (Regulations) 2005.The procedures under Standing Order 29(i) (i.e. consideration by the Subject Committee) and 29(ii) (i.e. consideration by the Legislation Committee) are being disapplied in this instance, as the Health and Social Services Committee and Legislation Committee have previously considered the policy of the Directions during their scrutiny of the Pharmaceutical Services (Amendment) (Wales) Regulations 2005.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Bydd y Rheoliadau hyn yn nodi'n benodol y gweithdrefnau cychwynnol i'w dilyn wrth ddelio ag/penderfynu ar apelau a gyflwynir gan berchennog tir neu ffermwr yn erbyn awdurdod mynediad sydd wedi rhoi rhybudd yn gofyn iddynt wneud gwaith i ddiogelu neu wella mynediad i dir.

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol ESTYN - Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (60 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 10 Mai 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad o'r Rhyng-gysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol (30 munud)**

  Yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ym mis Mehefin 2003 *(Adroddiad Wanless),* penderfynodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal adolygiad polisi o'r rhyng-gysylltiad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Nodau'r adolygiad oedd gwerthuso effeithiolrwydd cydweithio a chydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol; nodi arferion da a chynnig argymhellion er mwyn annog y prif asiantaethau i wella'r broses o gydweithio a chydweithredu. Ar 9 Mawrth 2005, cynhaliodd y Cynulliad Cenedlaethol drafodaeth ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad o'r Rhyng-gysylltiad rhwng y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

- **Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 7)**

**(Cymru) 2005**

Bydd y Gorchymyn Cychwyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â chreu cofrestrau i gadw gwybodaeth leol am geisiadau penodol am hawliau tramwy; darpariaethau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn disgyblion a staff ysgolion; a darpariaethau technegol eraill sy'n gysylltiedig â hawliau tramwy.

- **Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005**

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/77/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 94/54/EC o ran labelu bwydydd penodol sy'n cynnwys asid glysirhisinig (sy'n digwydd yn naturiol yn y planhigyn perwraidd *Glycyrrhiza glabra*) a'i halwyn amoniwm (a weithgynhyrchir o echdynion dyfrllyd y planhigyn perwraidd). Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyffaith a diodydd sy'n cynnwys lefelau penodol o'r asid neu'r halwyn hwnnw gael eu labelu â'r dangosiad "contains liquorice" a bod rhybudd yn cael ei ychwanegu mewn rhai achosion.

- **Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2005**

Bydd y rheoliadau hyn yn trosi ac yn gweithredu Cyfarwyddebau'r Cyngor 2003/114/EC. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diweddaru yng Nghymru y rheolau sy'n ymwneud ag ychwanegiadau bwyd amrywiol. Bydd y Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995 (fel y'u diwygiwyd) yn gweithredu'r holl ddeddfwriaethau Ewropeaidd cyfredol sy'n gysylltiedig ag ychwanegion amrywiol. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1995. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhan o raglen barhaus i ddiweddaru manylebau'r UE ar gyfer ychwanegion bwyd, a ddefnyddir i sicrhau purdeb ychwanegion bwyd.

- **Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela a Ffermir a Chig Cwningod (Hylendid ac Arolygu) (Diwygio) (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud i roi darpariaethau Erthygl 5(1)(B) o Gyfarwyddeb y Cyngor 71/118/EEC, sy'n gwahardd rhoi cig dofednod ar y farchnad os cafodd ei drin â chyfryngau dal dwr. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela a Ffermir a Chig Cwningod (Hylendid ac Arolygu) 1995 ac yn cywiro tan-weithredu Cyfarwyddeb Cig Dofednod 71/118/EEC yr UE.

- **30 munud ar gyfer is-ddeddfwriaeth**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: Polisïau a Gweithdrefnau o dan Reol Sefydlog 29 (20 munud)**

  Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn rhoi arfau newydd, mwy effeithiol i awdurdodau lleol (a hefyd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn nhermau'r darpariaethau tai) ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cafodd adran 218A (7) o Ddeddf Tai 1996 ei mewnosod gan adran 12 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Mae'n rhoi dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol i baratoi a chyhoeddi polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rhaid i bob landlord cymdeithasol gyhoeddi Datganiad o'u polisïau a'u gweithdrefnau, a Chrynodeb cysylltiedig, o leiaf 6 mis ar ôl i adran 12 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ddod i rym. Wrth baratoi ei bolisïau a'i weithdrefnau, rhaid i'r landlord roi sylw i ganllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Dydd Mercher 11 Mai 2005

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y'i nodwyd yn y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogion (30 munud)**

- **Dadl ar y Diwydiant Awyrofod yng Nghymru (60 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 17 Mai 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i drafod y 6 eitem isod gyda'i gilydd a phleidleisio arnynt ar wahân**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Hawliau Ailfynediad a Fforffediad (Swm a Chyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2005**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn atal landlord sydd o dan les hir ar annedd rhag arfer hawl ailfynediad neu fforffediad os bydd tenant yn methu â thalu swm wedi'i wneud o rent, taliadau gwasanaeth neu daliadau gweinyddu (neu gyfuniad ohonynt) oni bai bod y swm sydd heb ei dalu yn fwy na'r swm rhagnodedig neu'n swm sydd wedi'i wneud o swm a fu'n daladwy am fwy na chyfnod rhagnodedig neu'n swm sy'n cynnwys swm o'r fath. Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran anheddau yng Nghymru yn unig, yn rhagnodi'r swm o £350 a chyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn cyfateb â'r Rheoliadau yn Lloegr.

- **Cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005**

  Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau pellach Rhan 2 (Diwygio Cyfraith Lesddaliad) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

  Maent yn cynnwys:

- Darpariaethau sy'n rhoi hawl i lesddeiliaid ddewis eu hyswiriwr tai eu hunain;
- Darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i lesddeiliaid o rent tir cyn bod y rhent yn ddyledus;
- Darpariaethau sy'n atal eich landlord rhag peri i chi fforffedu'ch les am beidio â thalu rhent, taliadau gwasanaeth neu daliadau gweinyddu (neu gyfuniad ohonynt) os yw'r swm sy'n ddyledus yn £350 neu lai, neu os nad oes dim o'r swm sydd heb ei dalu wedi aros heb ei glirio am fwy na thair blynedd.
- Darpariaethau sy'n atal landlord rhag cyflwyno hysbysiad fforffedu oherwydd bod cyfamod neu amod yn y les wedi'i dorri oni bai bod y lesddeiliad yn cyfaddef ei fod wedi'i dorri, neu fod Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau wedi penderfynu'n derfynol bod y toriad wedi digwydd, neu o dan gytundeb cymrodeddu ar ôl-dadl;
- Pennu'r dyddiad prisio ar gyfer rhyddfreinio ar y cyd ar y dyddiad y mae hysbysiad gwreiddiol yn cael ei roi i'r landlord;
- Ymestyn awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau;

- Diwygiadau a diddymiadau canlyniadol a wnaed gan Ddeddf 2002 mewn Deddfau eraill.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tai Lesddaliad (Hysbysiad o Warchodaeth Yswiriant) (Cymru) 2005**

  Mae'r Rheoliadau hyn, mewn rhai amgylchiadau, yn galluogi tenant ty sydd â les hir, i osgoi'r gofyniad i yswirio'r ty gydag yswiriwr a enwebwyd neu a gymeradwywyd gan y landlord. Un o'r amgylchiadau yw bod y tenant yn rhoi "hysbysiad o warchodaeth" i'r landlord y mae'n rhaid nodi ynddo enw'r yswiriwr, y risgiau a warchodir gan y polisi, swm a chyfnod y warchodaeth, ac unrhyw wybodaeth bellach y gellir bod wedi'i rhagnodi gan y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwybodaeth bellach sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad o warchodaeth. Rhaid i'r hysbysiad fod ar y ffurf a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau neu ar ffurf sylweddol debyg ei heffaith.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Landlord a Thenant (Hysbysu o Rent) (Cymru) 2005**

  These Regulations relate to the form and content of notices requiring the payment of ground rent. The Regulations are intended to ensure that leaseholders should be informed that ground rent is due, given a reasonable time to make payment, without being liable for further costs, and made aware of the possible consequences of non-payment. The new form is to be used for notices in reply given on or after the date these Regulations come into force, or a form substantially to the same effect**.**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Diwygio) (Cymru) 2005**

  Sefydlwyd y Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau, sydd bellach yn rhan o'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, gan Ddeddf Tai 1980. Ers hynny, mae rôl wedi'i datblygu ar gyfer y Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliad i ddarparu ffordd hawdd ei defnyddio a chymharol hyddysg o ddatrys anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid. Mae Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 yn cynyddu awdurdodaeth y Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliad mewn nifer o ffyrdd, gan drosglwyddo awdurdodaeth neilltuedig iddynt dros y Llysoedd Sirol ar gyfer nifer o faterion. Yn eu plith mae'r grym i benderfynu ar geisiadau sy'n gysylltiedig â'r hawl newydd a gyflwynwyd o dan adran 168 o Ddeddf 2002. Mae hon yn atal landlord rhag cyflwyno hysbysiad i beri bod tenant yn fforffedu les am ei fod wedi torri cyfamod neu amod yn y les, oni bai fod y tenant yn cyfaddef ei dorri neu bod y Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliad wedi penderfynu'n derfynol bod y toriad wedi digwydd. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004 i ddarparu ar gyfer yr awdurdodaeth newydd hon ac i wella effeithlonrwydd y

Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau o ran materion gweithredu.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Diwygio) (Cymru) 2005**

  Bydd y Rheoliadau hyn, sy'n diwygio Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004, yn esbonio'r amgylchiadau lle bydd yn ofynnol i landlordiaid, sydd am ymrwymo i gytundebau hir-dymor am gyfnod o fwy na 12 mis, gynnal gweithdrefnau ymgynghori ffurfiol ar daliadau gwasanaeth gyda thenantiaid. Mae'r gwelliannau'n ymwneud â'r dehongliad o "gyfnodau cyfrifo"; yn benodol, maent yn ymwneud â dyddiad dechrau'r cyfnod cyfrifo cyntaf sy'n berthnasol i rai cytundebau hir-dymor. Mae'r gwelliannau'n effeithio ar unrhyw landlord sy'n bwriadu ymrwymo i gytundeb hir-dymor cymwys ar neu ar ôl 31 Mai 2005 lle nad oes cyfrifon priodol wedi'u paratoi eisoes.

- **Dadl ar y cynnydd mewn troseddau hiliol (60 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar ei Adolygiad o Weithredu'r Rheoliadau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Drefn Arolygu yng Nghymru (60 munud)**

## Dydd Mercher 18 Mai 2005

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Debate on "Hidden Harm –Responding to the needs of children of problem drug users" (60 munud)**

  This is the report of an inquiry by the UK Government`s Advisory Council on the Misuse of Drugs. The Prevention Working Group which conducted the inquiry is made up of representatives from a range of related backgrounds.

- **Dadl ar Fand Eang Cymru (60 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**